

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Cyfeirnod: LF/22002/AC/296/caf
Dyddiad cyhoeddi: 15 Chwefror 2022

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwyl Peredur

Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2022-23

Diolch i chi am eich llythyr 31 Ionawr 2022 yn cadarnhau bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo Cynllun Ffioedd 2022-23 ac yn gofyn am eglurhad ychwanegol ar y rheswm dros beidio ag atodi ein Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2022-23 at ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd eraill.

Er nad oes gofyniad i Archwilio Cymru gynnwys Cynllun Ffioedd drafft ochr yn ochr â'n Hamcangyfrif, rydym yn sylweddoli bod cysylltiadau cryf rhwng y ddwy ddogfen, ac felly rydym wedi ceisio cynnwys y Cynllun Ffioedd drafft ochr yn ochr â'r Amcangyfrif i'w ystyried gennych yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ar gyfer 2022-23, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad sylfaenol o'n strategaeth ariannu gyffredinol, fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer Amcangyfrif 2022-23. Yn benodol, roedd hyn yn ystyried y cydbwysedd cymharol mewn cyllid a sicrhawyd drwy gyfrwng ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru. Roedd amseriad yr adolygiad hwn yn golygu nad oedd yn bosibl cynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol ar y Graddfeydd Ffioedd mewn pryd i hyn gael ei adlewyrchu yn y ddogfen Amcangyfrif.

Nid oes unrhyw gynlluniau i ailadrodd yr ymarfer hwn ar gyfer 2023-24 ac felly rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein cynigion i newid rhywfaint o'n gwaith a ariennir drwy gyfrwng ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru (a'r effaith ddilynol ar ein graddfeydd ffioedd) yn ystod yr haf eleni. Byddwn yn adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn ein Hamcangyfrif a'n Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2023-24 yr ydym yn bwriadu ei ddarparu i chi ar yr un pryd i'w ystyried gennych.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes unrhyw eglurhad ychwanegol y gallwn ei ddarparu.

Yn gywir



LINDSAY FOYSTER
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio
Cymru



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru